Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Mrs Karen Thomas
Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las
Walters Road
Llansamlet
Abertawe
SA7 9RW

09/05/2025

Annwyl Mrs Karen Thomas

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag un argymhelliad o'i harolygiad craidd ym mis Medi 2018. Yn ogystal, edrychwyd ar gynnydd yr ysgol wrth gyflawni gofynion un blaenoriaeth yng nghynllun gwella'r ysgol. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y meysydd ffocws hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau, gan gynnwys ymweliadau ar y cyd â'r pennaeth
- siarad â disgyblion
- cyfarfod ag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennaeth

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau cyfleoedd cyson dda i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion i safon uwch

- Mae arweinwyr yn monitro'r ddarpariaeth a'r cynnydd o fewn rhifedd a llythrennedd yn rheolaidd. Maent yn cynnal teithiau dysgu, yn craffu ar gynlluniau a llyfrau, ac yn siarad â disgyblion. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i adnabod unrhyw agwedd sydd angen mwy o sylw, ac yn sicrhau bod hyn yn digwydd yn amserol.
- Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol er mwyn datblygu medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cynlluniau hyn yn sicrhau cydbwysedd yn yr hyn a addysgir a bod gwahanol fedrau, gan gynnwys y pump hyfedredd mathemategol, yn derbyn sylw priodol.
- Mae'r staff yn sicrhau amgylchedd gyfoethog ar gyfer datblygu medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion. Mae staff y disgyblion ieuengaf yn darparu ystod eang o adnoddau iddynt chwarae ac arbrofi â nhw. Drwy sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion chwarae'n annibynnol ac i gael sesiynau mwy strwythuredig, mae'r staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael bob cyfle i wneud cynnydd yn eu medrau.
- Mae'r staff yn defnyddio elfennau cyson fel cynllun penodol a chyfleoedd i 'Sgleinio'r Sgwrs' ar draws y cwricwlwm i ddatblygu'r modd y mae disgyblion yn magu hyder wrth siarad mewn cyd-destunau ac ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. Mae'r gwaith llafar hwn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar hyder disgyblion wrth ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau.
- Mae staff yr ysgol gyfan yn hybu medrau mathemateg disgyblion yn llwyddiannus drwy sesiynau sionc a phwrpasol rheolaidd. Mae hyn yn galluogi disgyblion i gaffael dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol drwy ymdrin â nhw yn rheolaidd mewn sesiynau byr a dwys.
- Mae staff y disgyblion hŷn yn addysgu medrau ieithyddol a mathemategol pwrpasol ac yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau real sy'n berthnasol i'r disgyblion.
- Drwy fonitro rheolaidd, mae arweinwyr yn sicrhau bod y disgyblion yn cael lefel briodol o her ar gyfer eu hoed a'u cam datblygiad.

### Datblygu Cymreictod a'r defnydd o'r Gymraeg

- Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn er mwyn hyrwyddo Cymreictod a defnydd y disgyblion o'r Gymraeg ar draws yr ysgol. Gyda chefnogaeth frwd y staff, mae ymdeimlad cryf o Gymreictod yn treiddio trwy holl fywyd a gwaith yr ysgol.

- Mae'r staff yn fodelau iaith hynod effeithiol. Maent yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu medrau llafar Cymraeg y disgyblion o fewn eu sesiynau dysgu, er enghraifft drwy annog y disgyblion i ddefnyddio ansoddeiriau cyfoethog wrth berfformio ymsonau chwedlau Cymreig.
- Yn ogystal, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu eu Cymreictod drwy arlwy o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys ystod eang o gystadleuthau unigol ac ar y cyd yn eisteddfod yr Urdd.
- Mae'r staff yn defnyddio dulliau bwriadus er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn annog y disgyblion i chwarae gemau buarth Cymreig ac yn datblygu eu hadnabyddiaeth o artistiaid a bandiau Cymreig cyfoes drwy chwarae cerddoriaeth Gymreig yn rheolaidd.
- Mae'r disgyblion sy'n aelodau o'r 'Criw Cymraeg' yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Maent yn cydweithio i greu blaenoriaethau gwella ysgol gyfan, gan gynnwys gwobrwyo eu cyfoedion am siarad Cymraeg yn gyson. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion at y Gymraeg, sydd i'w chlywed gyda brwdfrydedd ac yn naturiol ar fuarth yr ysgol.
- Mae'r staff yn cynllunio'n fwriadus er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o dreftadaeth a diwylliant eu hardal leol a Chymru yn ehangach. Maent yn bachu ar gyfleoedd pwrpasol i wahodd artistiaid amrywiol i'r ysgol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth y disgyblion o fyd y celfyddydau Cymreig.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6702036

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol